# Canllawiau Rheoli Cadw Gwybodaeth a Chofnodion

Mae nifer o gyfreithiau a rheoliadau ar destun Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth sy’n llywodraethu reoli cofnodion.

Rheoli Cofnodion yw'r arfer o gadw cofnodion o'r adeg y cânt eu creu nes iddynt gael eu gwaredu.

Mae'n ymwneud yn bennaf â chadw cofnodion a gynhyrchir o weithgareddau busnes yr ysgol.

## Beth yw cofnod?

Cofnod yw unrhyw wybodaeth a grëir, a dderbynnir, ac a gynhelir fel tystiolaeth a gwybodaeth gan y Cyngor a'i gyflogeion, yn unol â'i rwymedigaethau cyfreithiol neu drafodion busnes - *waeth ar ba ffurf.*

Mae cadw yn seiliedig ar ofynion statudol a gwerth parhaus y cofnod. Mae'r Rhestr yn cael ei hadolygu'n gyson a gellid ei haddasu yn dibynnu ar ddeddfwriaeth a gweithdrefnau gweithredol.

Gall cofnodion ddod ar sawl ffurf, megis:

- Dogfennau papur
- Gwrthrychau ffisegol
- Cofnodion digidol (h.y. cofnodion cwsmeriaid, tystysgrifau geni, dogfennau swyddfa, tystiolaeth erlyn, systemau electronig a negeseuon e-bost)

Cyfrifoldeb yr ysgol unigol yw creu, cynnal a dinistrio cofnodion.

Mae'n hanfodol bod yr holl gofnodion yn cael eu storio'n ddiogel a bod lleoliad y ffeiliau yn gyfredol bob amser.

## Pecyn Cymorth Rheoli Gwybodaeth i Ysgolion

Mae'r Pecyn Cymorth Rheoli Gwybodaeth i Ysgolion, sydd ar gael ar CLG ar-lein, yn ddogfen ddeinamig sy'n nodi'r cyfnodau y dylid cadw cofnodion ar eu cyfer.

Mae'r Amserlen yn rhoi cyfeiriad clir ar:

- pryd bydd y cyfnod cadw yn dechrau ar bob math o gofnod;

# Canllawiau Rheoli Cadw Gwybodaeth a Chofnodion

- pa gyfnod cadw sy'n berthnasol i bob math o gofnod;
- pa fesurau gwaredu y mae'n rhaid eu cymryd pan fydd pob math o gofnod yn cyrraedd diwedd ei gyfnod cadw.

Mae'r Amserlen Gadw yn berthnasol i bob math o gofnod, waeth ar ba fformat y cafodd ei greu neu y caiff ei gadw.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cofnod Addysgol Disgybl dan ofynion **Rheoliadau Gwybodaeth Disgybl (Cymru) 2011** | **The Education (Pupil Information) (England) Regulations 2005 SI 2005 No. 1437 Fel y'u diwygiwyd gan SI 2018 No 688** | | |
| Cynradd | | Cadw tra bod y plentyn yn yr ysgol gynradd | Dylai'r ffeil ddilyn y disgybl pan fo'n gadael yr ysgol gynradd. Bydd hyn yn cynnwys:<br>• i ysgol gynradd arall<br>• i ysgol uwchradd<br>• i uned cyfeirio disgyblion |
| Uwchradd | Deddf Cyfyngiadau 1980 (Adran 2) | Dyddiad geni'r disgybl + 25 mlynedd | ADOLYGU |
| Canlyniadau Arholiadau – copïau disgyblion | | | |

## Canllawiau Rheoli Cadw Gwybodaeth a Chofnodion

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Cyhoedd | | Dylid ychwanegu'r wybodaeth yma at ffeil y disgybl | Dylid dychwelyd pob tystysgrif heb ei chasglu i'r bwrdd arholi ar ôl i ymdrechion rhesymol i gysylltu â'r disgybl fethu |
| Mewnol | | Dylid ychwanegu'r wybodaeth yma at ffeil y disgybl | |

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan CLG.

Archifau Morgannwg

Mae staff Archifau Morgannwg yn falch o roi cyngor ac arweiniad ar y mathau o gofnodion hanesyddol y byddai ystorfa archifol yn ceisio eu casglu. Mae ein archifyddion yn hapus i arfarnu cofnodion er mwyn penderfynu a ydynt yn deilwng ar gyfer cadw'n barhaol.

Mae croeso i chi gysylltu i gael rhagor o wybodaeth am y materion hyn.

Archifau Morgannwg

Clos Park Morgannwg

Lecwydd

Caerdydd

CF11 8AW

Ffôn: (029) 2087 2299
E-bost: archifaumorgannwg@caerdydd.gov.uk

Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together

# Canllawiau Rheoli Cadw Gwybodaeth a Chofnodion

Gwefan: https://glamarchives.gov.uk/?lang=cy